

Ardaloedd Adnoddau Strategol a Hysbysiadau Cynllunio Morol

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1. Cyd-destun

1.1 Cynllun Morol Cymru

- 1.1.1 Cyhoeddwyd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru¹ (y 'Cynllun Morol') gan Lywodraeth Cymru ar 12 Tachwedd 2019. Mae'n berthnasol i ranbarthau'r glannau a'r môr mawr a chafodd ei baratoi a'i fabwysiadu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn unol â Datganiad Polisi Morol y Deyrnas Unedig. Mae'r Cynllun Morol yn ceisio llywio datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy ddangos sut y bydd y rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried cynigion, a thrwy ddarparu adnoddau i hwyluso cynllunio gofodol yn yr amgylchedd morol.
- 1.1.2 Bu'n rhaid cynnal 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' mewn perthynas â'r Cynllun Morol, a hynny'n unol â Rheoliad 113 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd') a Rheoliad 28 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol y Môr Mawr ('Rheoliadau Cynefinoedd y Môr Mawr'). Casgliad yr asesiad hwn oedd na fyddai rhoi'r Cynllun Morol ar waith yn arwain at effeithiau niweidiol ar integreidd unrhyw safleoedd Ewropeaidd^{2,3}, ar ei ben ei hun nac ar y cyd â chynlluniau, rhaglenni neu brosiectau eraill.

¹ [Llywodraeth Cymru \(2019\) Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.](#)

² Cafodd Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 eu diwygio gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 i adlewyrchu'r ffaith bod y DU wedi gadael yr UE. I raddau helaeth, roedd y rheoliadau hyn yn defnyddio'r un darpariaethau a'r un derminoleg â Rheoliadau 2017, ac felly mae'r term 'safle Ewropeaidd' wedi'i gadw ar hyn o bryd, ac at bob diben ymarferol, nid yw'r diffiniad yn ei hanfod wedi newid. Safleoedd Ewropeaidd felly yw: unrhyw Ardal Gadwraeth Arbennig o'r adeg pan gytunodd y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar y safle fel 'Safle o Bwys i'r Gymuned' (os oedd hyn cyn 31 Ionawr 2020); unrhyw Ardal Gwarchodaeth Arbennig ddsbarthiadol; ac unrhyw ddarpar Ardal Gadwraeth Arbennig. Serch hynny, defnyddir y term yn gyffredin hefyd wrth gyfeirio at Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl, lle roedd darpariaethau Erthygl 4(4) o Gyfarwyddeb 2009/147/EC (y 'gyfarwyddeb newydd ar gyfer adar gwyllt') yn berthnasol; ac i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig posibl a Safleoedd Ramsar, y mae darpariaethau'r Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol iddynt fel mater o bolisi'r Llywodraeth (TAN5 paragraff 5.2.2) wrth ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datblygu a allai effeithio arnynt. Gan hynny, defnyddir "safle Ewropeaidd" yn y nodyn hwn yn ei ystyr ehangaf, fel term ambarél ar gyfer yr holl safleoedd dynodedig uchod. Sylwer ei bod yn debygol y bydd y term hwn yn cael ei ddisodli ryw bryd yn y dyfodol (e.e. mae'r NPPF yn Lloegr wedi mabwysiadu'r term 'safleoedd Cynefinoedd' i gyfeirio'n dorfol at y safleoedd a ddiffinnir gan Reoliad 8) er na chytunwyd eto ar derm amgen ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

³ Sylwer nad yw safleoedd Ewropeaidd y DU bellach, yn gyfreithiol, yn rhan o rwydwaith 'Natura 2000' o safleoedd gwarchodedig, ac mae hwn wedi'i ddisodli yn y DU gan y 'rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol' sy'n cynnwys yr holl

1.2 Hysbysiadau Cynllunio Morol ac Ardaloedd Adnoddau Strategol

1.2.1 Mae'r Cynllun Morol yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Llywodraeth Cymru, fel yr awdurdod cynllunio morol, i gyflwyno dogfennau cynllunio ategol sy'n cael eu galw yn **Hysbysiadau Cynllunio Morol**. Mae Hysbysiadau Cynllunio Morol yn rhoi canllawiau am sut i ddehongli neu gymhwyso polisiau presennol y Cynllun Morol; nid ydynt yn cyflwyno polisi newydd. Byddant yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau o dan adran 58 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

1.2.2 Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu Hysbysiadau Cynllunio Morol er mwyn diffinio '**Ardaloedd Adnoddau Strategol**' a llywio'r ffordd mae'r rheini'n cael eu defnyddio yn y maes cynllunio morol. Pan fyddant yn cael eu cyflwyno, bydd Ardaloedd Adnoddau Strategol yn dynodi ardaloedd gwahanol lle ceir adnoddau naturiol (nid gweithgareddau) sydd â photensial i gefnogi defnydd cynaliadwy yn y dyfodol gan sector penodol, a lle ceir elfen o ddiogelu drwy [bolisi SAF_02 y Cynllun Morol](#). Mae Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr arfaeth ar hyn o bryd ar gyfer y sectorau hyn:

- adnoddau ynni tonnau;
- adnoddau ynni ffrwd llanw;
- adnoddau ynni amrediad llanw;
- adnoddau ynni gwynt arnofiol ar y môr mawr;
- adnoddau agregau; ac
- adnoddau dyframaeth (pysgod cregyn a gwymon).

1.2.3 Mae rhagor o wybodaeth am ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gael yn y [Ardaloedd Adnoddau Strategol: canllaw](#). I grynhoi, ac yn syml, diben Ardaloedd Adnoddau Strategol yw diogelu adnoddau a hwyluso deialog ragweithiol rhwng sectorau wrth gynllunio gweithgareddau'r dyfodol. Casgliad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn perthynas â'r Cynllun Morol oedd na fyddai polisi diogelu SAF_02 yn cael unrhyw effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd, ar ei ben ei hun nac ar y cyd â pholisiau eraill. Roedd hyn gan nad oedd y polisi'n gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer newidiadau a allai effeithio mewn egwyddor ar safle Ewropeaidd, ac mae'r casgliad hwn yn gyson â'r asesiadau o bolisiau diogelu tebyg a geir mewn cynlluniau eraill (yn benodol, polisiau diogelu mwynau mewn Cynlluniau Mwynau).

1.3 Y Nodyn Technegol hwn

1.3.1 Mae'r canllawiau a'r gyfraith achosion sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau Cynefinoedd yn cefnogi dehongliad eang o'r term 'cynllun'. Gan amlaf, nid yw'n addas cyfyngu cwmpas

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac unrhyw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a ddynodir o dan Reoliadau 2019 (nid yw safleoedd Ramsar yn rhan o'r rhwydwaith). Mae hyn yn berthnasol hefyd os bydd angen camau i wneud iawn am effaith niweidiol, gan mai'r metrig perthnasol yw pa mor gydlynol yn gyffredinol yw'r 'rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol'. Mae Rheoliadau 2019 yn creu amcanion rheoli ar gyfer y 'rhwydwaith o safleoedd cenedlaethol' sy'n cyfrannu at warchod cynefinoedd a rhywogaethau'r DU sydd hefyd o bwysigrwydd Ewropeaidd, ac at sicrhau statws cadwraeth ffafriol yn y DU.

neu gymhwysedd Rheoliad 63 yn sgil y math o ddogfen sydd dan sylw. O dan Reoliad 28 Rheoliadau Cynefinoedd y Môr Mawr, 'cynllun perthnasol' yn syml yw un sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd neu safle morol Ewropeaidd ar y môr mawr.

- 1.3.2 Gan hynny, ystyrir gan amlaf bod unrhyw ddatganiad ffurfiol (neu ddogfen debyg) y mae angen ei awdurdodi (ar wahân i ddatganiadau cyffredinol o bolisiau neu ddyheadau), a hwnnw'n dynodi llwybr gweithredu a fwriedir, neu'n dangos sut y gellid cynllunio, darparu neu reoleiddio gweithgaredd neu weithred, yn 'gynllun'. Fel yr awdurdod cynllunio morol, a thrwy hynny, fel yr awdurdod cymwys ar gyfer y Cynllun Morol, mae Llywodraeth Cymru'n credu ei bod hi'n angenrheidiol penderfynu a fydd angen 'asesiad priodol' ar Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn unol â Rheoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd a Rheoliad 38 Rheoliadau Cynefinoedd y Môr Mawr.
- 1.3.3 Gan amlaf, gelwir y broses o benderfynu a oes angen asesiad priodol yn 'brawf arwyddocâd' neu'n broses 'sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd'; **mae'r nodyn technegol hwn yn cyflwyno'r dull o weithio a'r casgliadau a gynigir, yn y cam hwn yn y broses o ddatblygu Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol, ar gyfer sgrinio Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol.**
- 1.3.4 Nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto ar yr Hysbysiadau Cynllunio Morol a'r Ardaloedd Adnoddau Strategol, ac felly mae casgliadau'r nodyn technegol hwn o anghenraid yn rhai dros dro, ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. **Serch hynny, ystyrir y bydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ffurfiol a gynhelir pan fabwysiedir y dogfennau yn gallu casglu na fydd Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn debygol o gael effeithiau sylweddol, ar eu pennau'u hunain nac ar y cyd, ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd, ar sail:**
- nodweddion sylfaenol yr Hysbysiad Cynllunio Morol;
 - y bwriad y bydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn dynodi er mwyn 'diogelu' heb roi unrhyw fanteision cynllunio (ac ati);
 - yr arfer mewn achosion tebyg wrth ymdrin ag Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd mewn sectorau eraill.
- 1.3.5 Mae'r sail dros y casgliad hwn wedi'i gyflwyno yn yr adrannau nesaf, gan adolygu a phrofi'r llwybrau effaith posibl. Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chyflwyno yn yr Atodiadau.

2. Sgrinio

2.1 Y gofyniad am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 2.1.1 Fel y nodwyd, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y profion a geir yn Rheoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd a Rheoliad 38 Rheoliadau Cynefinoedd y Môr Mawr yn berthnasol i Hysbysiadau Cynllunio Morol (h.y. bernir eu bod yn 'gynlluniau' yn unol ag ystyr a chwmpas y Rheoliadau, ac felly nid ydynt wedi'u heithrio rhag cael eu hystyried).

- 2.1.2 Mae Rheoliad 63(1)(b) y Rheoliadau Cynefinoedd a Rheoliad 28(2)(c) Rheoliadau Cynefinoedd y Môr Mawr yn cynnwys eithriadau ar gyfer cynlluniau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â rheoli safle neu safleoedd Ewropeaidd y mae'r cynllun dan sylw'n effeithio arnynt, neu sy'n angenrheidiol i reoli safleoedd o'r fath⁴. Nid yw Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn gynlluniau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â rheoli unrhyw safleoedd Ewropeaidd penodol, nac yn angenrheidiol i reoli safleoedd o'r fath, ac felly nid yw'r eithriadau yn Rheoliad 63(1)(b) a Rheoliad 28(2)(c) yn berthnasol i Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol.
- 2.1.3 Er nad yw Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol wedi'u hepgor na'u heithrio o'r profion perthnasol yn y Rheoliadau, fe ellid cael sefyllfa lle na fyddai'n rhaid eu hystyried ymhellach (yn unol ag arferion a chanllawiau⁵ presennol y diwydiant) pe baent yn bodloni meini prawf penodol. Gan amlaf, bydd cynlluniau o'r fath naill ai'n ddyheadau cyffredinol neu'n fynegiant o ewyllys wleidyddol; neu ni fyddant yn cynnwys unrhyw strategaethau neu bolisiau, neu'n gwneud cynigion neu ddarpariaethau ar gyfer unrhyw newidiadau, a allai effeithio mewn egwyddor ar safle Ewropeaidd⁶. Trafodir yr elfennau hyn yn yr adrannau nesaf.

2.2 Nodweddion Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol a'r llwybrau effaith posibl

Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol

- 2.2.1 Nid yw ffiniau'r Ardaloedd Adnoddau Strategol, na'r Hysbysiadau Cynllunio Morol cysylltiedig, wedi'u ffurfio'n derfynol ar hyn o bryd; serch hynny, mae amlinelliad ar gael o'r diben a fwriedir a nodweddion cyffredinol y rhain, a hynny ar sail:
- datganiadau a pholisiau yn y Cynllun Morol gan gynnwys Polisi SAF_02 a Pharagraffau 46 – 49, ac yn enwedig:
 - ▶ paragraff 47 ("Mae'r [Ardaloedd Adnoddau Strategol] yn erfyn i reoli gweithgareddau, gofod ac adnoddau morol yn well, gan helpu i reoli'r rhyngweithiau rhwng sectorau a rhoi ffocws ar gyfer rhagor o gynllunio strategol");
 - ▶ paragraff 48 ("...Nid yw'r [Ardaloedd Adnoddau Strategol]... yn gwahardd datblygu gweithgareddau eraill yn yr ardal [nac yn] ... awgrymu graddfa na chyflymder datblygu na defnyddio'r adnodd...[ac yn y blaen]");
 - templedi drafft ar gyfer Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r rheini'n cynnwys testun stoc i'w ddefnyddio ym mhob Hysbysiad Cynllunio Morol (gweler **Atodiad A1** ac **A2**); a

⁴ Sylwer bod y rheoliadau'n cyfeirio at 'the site' neu 'that site' wrth ystyried camau rheoli, ac nid ydynt yn eithrio cynlluniau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â rheoli safle Ewropeaidd penodol neu'n angenrheidiol i reoli safle Ewropeaidd penodol, ond sydd hefyd yn effeithio ar safle(oedd) Ewropeaidd nad ydynt yn cael eu targedu.

⁵ Er enghraifft, DTA (2021). [The Habitats Regulations Handbook \[ar-lein\]](#). [Fel ar 18.11.21].

⁶ DTA (2021). [The Habitats Regulations Handbook \[ar-lein\]](#). [Fel ar 18.11.21].

- gwybodaeth am yr Ardaloedd Adnoddau Strategol a'u datblygiad, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:
 - ▶ Llywodraeth Cymru (2021). [Y dull arfaethedig o ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol i gefnogi'r gwaith o weithredu polisi diogelu CMCC \[ar-lein\]](#). Llywodraeth Cymru, Caerdydd.
 - ▶ Llywodraeth Cymru (2021). [Nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Egwyddorion Dylunio \[ar-lein\]](#). Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

2.2.2 Mae'r dogfennau hyn yn dangos bod mai'r bwriad yw y bydd gan holl Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol (waeth ym mha sector na beth yw eu maint daearyddol) y nodweddion sylfaenol a chynhenid hyn:

- Bydd yr Hysbysiadau Cynllunio Morol yn gwbl atodol i'r Cynllun Morol ac yn amodol ar hwnnw; ni fyddant yn cyflwyno unrhyw bolisiau newydd, ac ni allant wrthdaro a pholisiau'r Cynllun Morol.
- Bwriedir i'r Ardaloedd Adnoddau Strategol weithredu gyda SAF_02 fel dynodiad sy'n diogelu adnoddau rhag cael eu sterileiddio'n amhriodol ac sy'n hwyluso deialog ragweithiol rhwng sectorau wrth gynllunio gweithgareddau'r dyfodol; nid ydynt yn diogelu adnoddau ar gyfer datblygu, nac yn hyrwyddo unrhyw ddatblygu.
- Rhaid i'r holl gynigion sy'n deillio o Ardal Adnoddau Strategol ddilyn y gweithdrefnau awdurdodi a chydysnio arferol. Ni fydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn dylanwadu ar ba mor dderbyniol (neu beidio) yw datblygiadau penodol; ni fyddant chwaith yn rhoi hawliau, cefnogaeth, manteision o ran penderfyniadau cynllunio (ac ati) ar gyfer datblygu gan sector penodol; ni fyddant chwaith yn awgrymu unrhyw faint neu raddfa ar gyfer datblygu neu ddefnyddio adnoddau. Er enghraifft, ni fydd cynnig ym maes 'ffrwd llanw' yn cael ei ystyried yn fwy derbyniol neu'n fwy tebygol o gael ei ganiatáu gan ei fod mewn Ardal Adnoddau Strategol ffrwd llanw; yn yr un modd, ni fyddai datblygiad agregau'n cael ei wahardd, ar sail egwyddor, o Ardal Adnoddau Strategol ffrwd llanw⁷.

2.2.3 Dylid nodi y bydd y diffiniad o ffiniau Ardaloedd Adnoddau Strategol yn ystyried y dystiolaeth ynghylch derbynyddion amgylcheddol, ond ni wneir unrhyw ymrwymadau ynghylch y gorgyffwrdd posibl rhwng Ardaloedd Adnoddau Strategol a safleoedd Ewropeaidd yn Egwyddorion Dylunio'r Ardaloedd Adnoddau Strategol (er bod y Cynllun Morol yn nodi bod gorgyffwrdd yn bosibl, oherwydd nifer a maint y safleoedd Ewropeaidd

⁷ Sylwer bod SAF_02 yn datgan "Rhaid i gynigion a allai gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar ragolygon unrhyw sector a gwmpesir Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen". Mae'n debygol y bydd Hysbysiadau Cynllunio Morol yn cynnwys canllawiau ar gyfer y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer cydbwysio buddiannau sectorau neu gynigion anghydnaws (gweler Atodiad A2), a allai (yn dibynnu ar sut y byddant yn cael eu dehongli) yn y pen draw roi rhywfaint o flaenoriaeth i sector targed yn ei Ardal Adnoddau Strategol 'ei hun' wrth ystyried cynigion anghydnaws gan sector nad yw wedi'i dargedu, ac mewn perthynas â hynny yn unig. Efallai mai effaith gyffredinol net hyn fyddai (er enghraifft) gwneud datblygiad agregau mewn Ardal Adnoddau Strategol agregau yn fwy tebygol **o'i gymharu** â datblygiad dyframaeth mewn Ardal Adnoddau Strategol agregau, ond ni fydd yn cael unrhyw effaith ar ba mor debygol yn gyffredinol yw hi y gellid bwrw ymlaen â datblygiad agregau – h.y. nid yw'r Ardal Adnoddau Strategol yn dal i roi unrhyw gefnogaeth na manteision o ran penderfyniadau cynllunio (ac ati) ar gyfer agregau yn hyn o beth yn unol â pholisi'r Cynllun Morol.

yn nyfroedd Cymru os dim arall). Byddai'n bosibl dynodi ffiniau Ardaloedd Adnoddau Strategol mewn ffordd sy'n golygu na fyddant yn gorgyffwrdd ag unrhyw safleoedd Ewropeaidd, er nad oes unrhyw fanteision amlwg i safleoedd Ewropeaidd o wneud hyn⁸, ac nid yw dynodiadau diogelu tebyg mewn cynlluniau eraill (yn benodol, Ardaloedd Diogelu Mwynau mewn Cynlluniau Mwynau) gan amlaf yn hepgor safleoedd Ewropeaidd. Serch hynny, gan nad oes dull wedi'i ddiffinio eto ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd lle bydd Ardaloedd Adnoddau Strategol a safleoedd Ewropeaidd yn gorgyffwrdd, mae'r gwaith i ystyried y llwybrau effaith posibl yn adlewyrchu'r naill senario a'r llall (h.y. creu Ardaloedd Adnoddau Strategol gan osgoi safleoedd Ewropeaidd, a chan beidio â'u hosgoi).

Llwybrau Effaith Posibl

- 2.2.4 Ni fydd Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cael eu dynodi y tu hwnt i ffiniau daeryddol y Cynllun Morol, ac felly bydd y safleoedd Ewropeaidd y gallai Ardaloedd Adnoddau Strategol effeithio arnynt yr un fath â'r rheini a enwir yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Morol⁹, yn ogystal ag unrhyw safleoedd newydd yn y Deyrnas Unedig sy'n bodloni'r meini prawf a geir yn Adran 5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Morol ac a ddynodir cyn mabwysiadu pob Hysbysiad Cynllunio Morol. Mae nodweddion o ddiddordeb ac amcanion cadwraeth y safleoedd hyn wedi'u hystyried wrth ganfod llwybrau effaith posibl.
- 2.2.5 Mae'n glir bod Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn ddulliau diogelu sy'n hwyluso deialog rhwng sectorau, ac nad eu bwriad yw cynnwys unrhyw strategaethau neu bolisiau, na gwneud unrhyw gynigion neu ddarpariaeth ar gyfer newidiadau a fyddai'n arwain at ddatblygu neu newidiadau sylweddol eraill ar lawr gwlad. Serch hynny, mae'n briodol edrych i weld a yw dynodi Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cyflwyno unrhyw lwybrau ar gyfer effeithiau eilaidd neu effeithiau anuniongyrchol anfwriadol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Mae hyn wedi'i wneud drwy edrych ar yr arfer mewn achosion tebyg wrth ymdrin â chynlluniau a dogfennau polisi cyfatebol¹⁰ a'u Hasesiadau Rheoliadau Cynefinoedd; a thrwy drafod â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol.
- 2.2.6 Mae'r dadansoddiadau hyn wedi canfod pedwar llwybr damcaniaethol lle gallai dynodi Ardaloedd Adnoddau Strategol newid pa mor debygol yw datblygiadau o effeithio ar safleoedd Ewropeaidd:
- Gellid dehongli'r weithred o ddiffinio ardal ar gynllun fel rhywbeth sy'n cynrychioli bwriad i gynllunio ac i roi caniatâd, yn debyg i 'ardaloedd chwilio' sy'n rhoi ffocws i ddatblygu yn y dyfodol gan sectorau penodol ac sy'n dangos bwriad yr awdurdod cynllunio.

⁸ Ni fydd yr Ardaloedd Adnoddau Naturiol yn hwyluso nac yn cynyddu pa mor debygol yw datblygiadau yn yr ardaloedd hyn, nac yn cryfhau pa mor dderbyniol ydynt; ni fyddai'r risgiau i safleoedd Ewropeaidd o ddatblygiadau yn cael eu lleihau'n amlwg drwy wahardd gorgyffwrdd oherwydd natur yr amgylchedd morol, agoswydd safleoedd Ewropeaidd at unrhyw ddatblygiad mewn unrhyw achos (mae dros 70% o ddyfroedd Cymru yn Ardaloedd Morol Gwarchoddedig), a phresenoldeb rhywogaethau hynod symudol a hynod amrywiol o ran eu nodweddion o ddiddordeb.

⁹ [Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Morol](#)

¹⁰ Er enghraifft, Cynlluniau Mwynau a'r modd maent yn dynodi Ardaloedd Diogelu Mwynau.

- Gellid dadlau y gallai Ardal Adnoddau Strategol gyflwyno 'effeithiau rhwystro' goddefol, lle bydd cymhlethdod ymddangosiadol gosod datblygiadau neu weithgareddau 'nad ydynt wedi'u targedu'¹¹ mewn Ardal Adnoddau Strategol yn digwydd arwain at symud datblygiadau o'r fath i leoliadau lle gallai'r risg o wrthdaro â safleoedd Ewropeaidd fod yn uwch.
- Gallai Ardal Adnoddau Strategol greu rhwystr rhag cyflawni cynigion rheoli ym maes cadwraeth, gan greu gwrthdaro posibl rhwng diogelu adnodd rhag cael ei sterileiddio ar y nail llaw, a sicrhau statws cadwraeth ffafriol (ac ati) mewn safle Ewropeaidd ar y llall.
- Gellid dehongli diogelu fel cam sy'n rhoi sail i'r ddadl 'dim opsiynau eraill' pan fydd datblygiad (ac ati) yn cael effaith niweidiol ar safle Ewropeaidd (naill ai yn achos gweithgareddau'r sector a dargedir yn yr Ardal Adnoddau Strategol neu weithgareddau nad ydynt wedi'u targedu y tu allan i'r Ardal Adnoddau Strategol).

2.2.7 Mae'r llwybrau hyn yn cael eu trafod yn gryno isod.

Bwriad Cynllunio

2.2.8 Fel y nodir, mae'r Cynllun Morol yn eglur nad yw dynodi Ardaloedd Adnoddau Strategol yn arwydd o fwriad cynllunio (Paragraff 48: "Nid yw'r [Ardaloedd Adnoddau Strategol] o reidrwydd yn ddatganiad bod yr ardal yn addas ar gyfer ei datblygu nac yn gwahardd datblygu gweithgareddau eraill yn yr ardal. Oni dywedir yn wahanol, nid yw [Ardal Adnoddau Strategol] yn awgrymu graddfa na chyflymder datblygu na defnyddio'r adnodd ac efallai na fyddai rhai gweithgarwch dynol yn briodol mewn [Ardal Adnoddau Strategol] oherwydd y gofyn i ddiogelu rhai nodweddion [Ardaloedd Morol Gwarchoddedig]").

2.2.9 Atgyfnerthir hyn yn y templed drafft ar gyfer testun Hysbysiadau Cynllunio Morol (**Atodiad A**):

- Paragraff 8: "Nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn llywio datblygiadau nac yn dangos pa mor addas yw datblygiadau, nid ydynt yn golygu bod polisi cynllunio'n cefnogi datblygu, ac nid ydynt yn gwahardd datblygu mewn ardal drwy weithgareddau eraill".
- Paragraff 9: "Rhaid i'r holl gynigion a gyflwynir mewn Ardal Adnoddau Strategol ddilyn y gweithdrefnau awdurdodi a chydsynio arferol. Bydd angen dilyn yr holl reoliadau amgylcheddol (a'r polisiau yn y Cynllun Morol) yn llawn wrth fwrw ymlaen ag unrhyw ddatblygiad mewn unrhyw Ardal Adnoddau Strategol (yn yr un modd ag ym mhob lleoliad arall)."

2.2.10 Ni ystyrir bod dynodiadau diogelu tebyg mewn cynlluniau eraill (ac yn benodol, Ardaloedd Diogelu Mwynau mewn Cynlluniau Mwynau) yn rhoi awgrym eu bod yn cefnogi neu'n annog datblygiadau mwynau nac yn gwneud datblygu o'r fath yn fwy tebygol; ni ddadleuir chwaith, yng nghyd-destun penderfyniadau cynllunio, bod arwyddocâd cynhenid i'r weithred o greu Ardal Diogelu Mwynau o'r holl adnoddau mwynau mewn ardal – mae'r

¹¹ h.y. datblygu gan sectorau ac eithrio'r sector y dynodwyd yr Ardal Adnoddau Strategol ar ei gyfer.

arwyddocâd (neu'r diffyg arwyddocâd) yn llwyr gysylltiedig â'r polisi perthnasol ac nid â'r weithred o greu 'llinell ar fap'.

- 2.2.11 Gan ystyried hyn i gyd, mae'n amlwg nad bwriad dynodi Ardal Adnoddau Strategol yw rhoi cyfarwyddyd ar gyfer datblygu (naill ai mewn Ardal Adnoddau Strategol neu y tu allan iddi), nac awgrymu bod math penodol o ddatblygiad yn debygol o fod yn dderbyniol, ac nid yw hyn felly yn creu mecanwaith ar gyfer effeithiau sylweddol.

Symud datblygiadau

- 2.2.12 Nid yw'r Ardaloedd Adnoddau Strategol yn rhoi cyfarwyddyd i symud datblygiadau tuag at yr ardaloedd hyn neu oddi wrthynt, nac yn awgrymu bod rhai datblygiadau'n fwy addas neu'n fwy tebygol o gael eu caniatáu mewn ardal. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd datblygiadau nad ydynt wedi'u targedu yn digwydd cael eu symud i ffwrdd o'r Ardaloedd Adnoddau Strategol, a hynny oherwydd cymhlethdod ymddangosiadol rhoi sylw i ofynion yr Ardaloedd Adnoddau Strategol mewn ceisiadau. Gallai hyn gynyddu pa mor debygol, yn gymharol, yw datblygiadau o ddigwydd y tu allan i Ardaloedd Adnoddau Strategol.
- 2.2.13 Dylid nodi y gallai peidio â gorgyffwrdd â safleoedd Ewropeaidd wrth ddynodi ffiniau Ardaloedd Adnoddau Strategol gynyddu'r risg o wireddu'r mecanwaith hwn, gan y byddai ardaloedd y tu allan i'r Ardaloedd Adnoddau Strategol (yn ddamcaniaethol, gallai gweithgareddau symud i'r ardaloedd hyn), yn ôl eu diffiniad, yn fwy tebygol o gynnwys safleoedd Ewropeaidd.
- 2.2.14 Serch hynny, wrth edrych ar gynlluniau a pholisïau diogelu tebyg, ac ar y Cynllun Morol a'r Hysbysiadau Cynllunio Morol drafft, mae'n ymddangos bod hon yn risg ddamcaniaethol yn hytrach nag yn risg go iawn. Mae hyn oherwydd:
- byddai angen i unrhyw ddatblygiad a gaiff ei 'symud' yn oddefol yn y fath fodd gydymffurfio o hyd â'r polisïau diogelu a geir yn y Cynllun Morol (yn benodol, ENV_02), yn ogystal â chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol y Rheoliadau Cynefinoedd;
 - byddai'r angen i osgoi effeithiau niweidiol ar safle Ewropeaidd mewn man arall, o bosibl, yn rheswm dilys dros ddatblygu mewn ardal sydd wedi'i diogelu;
 - nid yw'r trothwy ar gyfer bodloni gofynion SAF_02 yn arbennig o uchel (ac yn sicr nid yw'n ddigon uchel i wahardd gweithgareddau nad ydynt wedi'u targedu yn systematig, hyd yn oed os yw hynny'n anuniongyrchol); a
 - (gan dybio nad yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn hepgor safleoedd Ewropeaidd) ar lefel strategol, nid yw'n amlwg y byddai'r risgiau i nodweddion o ddiddordeb mewn safle Ewropeaidd yn cynyddu'n sylweddol ac yn systematig ac ystyried pa mor gyffredin yw Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru, natur yr amgylchedd morol, a'r defnydd helaeth o ardaloedd nad ydynt wedi'u dynodi gan rywogaethau hynod symudol a hynod amrywiol.
- 2.2.15 At hynny, hyd yn oed pe bai'r risg hon yn cael ei hystyried yn ddigon sylweddol i edrych arni'n fanylach, yn ymarferol, ni all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol asesu effeithiau datblygiad neu ddatblygiadau damcaniaethol yn y dyfodol nad ydynt wedi'u targedu ac a allai gael eu

gosod mewn lleoliad heb ei ddiffinio, a hynny oherwydd unrhyw faich biwrocraidd ymddangosiadol sy'n deillio o'r polisi diogelu.

Gwaith ym maes cadwraeth

- 2.2.16 Gellid dadlau y gallai rhoi'r polisi diogelu ar waith drwy gyflwyno Ardal Adnoddau Strategol greu rhwystr i gynigion ar gyfer gwaith rheoli ym maes cadwraeth sy'n angenrheidiol er mwyn i safle Ewropeaidd gadw neu sicrhau statws cadwraeth ffafriol; er enghraifft, gallai newid yn lefel y môr olygu bod angen ymyrryd â'r seilwaith i gynnal cynefinoedd penodol, a gallai fod angen cyfiawnhau hynny wedyn os byddant mewn ardal sydd wedi'i diogelu. Gallai fod gwrthdaro wedyn rhwng diogelu'r adnodd yn yr Ardal Adnoddau Strategol rhag cael ei 'sterileiddio' ar y naill law, a sicrhau statws cadwraeth ffafriol (ac ati) ar safle ar y llaw arall.
- 2.2.17 Nid yw'r polisiau yn y Cynllun Morol yn rhoi sylw amlwg i'r tensiwn posibl hwn, er y dylid nodi'r canlynol:
- Dywed Polisi ENV-01 yn benodol: "Anogir cynigion sy'n cyfrannu at warchod, adfer a/neu wella ecosystemau morol"; mae'r gefnogaeth hon yn ddiamwys.
 - Nid yw Polisi SAF-02 yn gwahardd datblygu (ac ati) o fewn Ardal Adnoddau Strategol. Yn hytrach, mae'n datgan yn syml: "Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen".
 - Mae paragraff 172 yn datgan "Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddynodi rhagor o [Ardaloedd Morol Gwarchodedig], yn ôl yr angen, er mwyn cwblhau ei chyfraniad i rwydwaith ecolegol gydlynol. Rhaid i'r ffaith bod [Ardaloedd Adnoddau Strategol] yn bodoli beidio â llesteirio'r broses o ddynodi [Ardaloedd Morol Gwarchodedig] nac ychwaith atal Cymru rhag cyfrannu at rwydwaith ecolegol gydlynol o [Ardaloedd Morol Gwarchodedig]"; byddai camau y mae eu hangen i gael statws cadwraeth ffafriol yn cyfrannu yn eu hanfod at "...rwydwaith ecolegol gydlynol o [Ardaloedd Morol Gwarchodedig]".
- 2.2.18 Ystyrir bod y tensiwn posibl hwn felly i raddau'n densiwn mwy damcaniaethol na thensiwn go iawn, a byddai gwaith neu weithgareddau cadwraeth y mae eu hangen er mwyn cynnal neu gyflawni statws cadwraeth ffafriol yn unig¹² ac sydd drwy hynny'n cyfrannu at "...rwydwaith ecolegol gydlynol o [Ardaloedd Morol Gwarchodedig]" wastad yn rheswm "clir ac argyhoeddiadol" dros waith nad yw'n gydnaws o fewn Ardal Adnoddau Strategol.

Y ddadl dim opsiynau eraill

- 2.2.19 Gellid dehongli diogelu fel cam sy'n rhoi sail i'r ddadl 'dim opsiynau eraill' pan fydd datblygiad (ac ati) yn cael effaith niweidiol ar safle Ewropeaidd (naill ai yn achos gweithgareddau'r sector a dargedir yn yr Ardal Adnoddau Strategol neu weithgareddau

¹² Sylwer, tra byddai camau i gynnal (ac ati) statws cadwraeth ffafriol safleoedd Ewropeaidd yn drech na'r angen i ddiogelu adnoddau, byddai angen i gydnawsedd unrhyw waith lliniaru neu waith gwella sy'n angenrheidiol mewn Ardal Adnoddau Strategol i gefnogi datblygiad 'nad yw wedi'i dargedu' gael ei gyfiawnhau fel rhan o'r cynnig hwnnw; ni fyddai camau lliniaru neu wella ar gyfer cynnig ar gyfer datblygiad o anghenraid yn cael eu cymeradwyo os na ellir dadlau'r achos dros 'sterileiddio' adnodd (ac mewn achos o'r fath, ni fyddai modd bwrw ymlaen â'r cynllun ei hun).

nad ydynt wedi'u targedu y tu allan i'r Ardal Adnoddau Strategol). Fel uchod, nid yw hon yn ddadl y bydd rhywun yn dod ar ei thraws yn aml wrth edrych ar senarios diogelu, gan y byddai integreidd safle Ewropeaidd wastad yn drech nag unrhyw bolisi diogelu, ac ni fyddai disgwyl hyn yn achos Ardal Adnoddau Strategol chwaith. Yn benodol, mae'n amlwg nad yw'r polisi diogelu yn creu rhwystr anorchfygol i ddatblygiadau nad ydynt wedi'u targedu mewn Ardaloedd Adnoddau Strategol.

2.3 Casgliadau ac argymhellion

- 2.3.1 Gellir casglu, ar sail y dadansoddiadau uchod, nad yw Hysbysiad Cynllunio Morol ar gyfer Ardal Adnoddau Strategol sy'n dilyn y templed drafft yn **Atodiad A1** (a gyda'r ychwanegiadau posibl a geir yn **Atodiad A2**), ac sy'n gyson â pholisiau'r Cynllun Morol, yn cyflwyno unrhyw fecanweithiau a fyddai'n debygol o gael unrhyw effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd, boed yn unigol neu ar y cyd, a hynny oherwydd y nodweddion sylfaenol a fydd yn gyffredin i Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol ym mhob sector.
- 2.3.2 Yn benodol, ni fydd Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cynnwys unrhyw strategaethau neu bolisiau, neu'n gwneud cynigion neu ddarpariaethau ar gyfer unrhyw newidiadau, a allai effeithio ar safle Ewropeaidd mewn egwyddor. Defnyddir yr Ardaloedd Adnoddau Strategol i roi Polisi SAF_02 ar waith (ac ystyrir hwnnw ei hun yn bolisi 'heb effeithiau sylweddol' yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Morol), a hynny mewn ffordd:
- nad yw'n rhoi hawliau defnyddio na hawliau datblygu i unrhyw sector;
 - nad yw'n rhoi unrhyw gefnogaeth uniongyrchol nac anuniongyrchol, na manteision o ran penderfyniadau cynllunio, ar gyfer datblygu gan sector penodol;
 - nad yw'n ddiamod yn rhwystro sectorau neu weithgareddau eraill rhag defnyddio ardal;
 - nad yw'n awgrymu unrhyw faint neu raddfa ar gyfer datblygu neu ddefnyddio adnodd;
 - na fydd yn arwain at effeithiau anuniongyrchol nac eilaidd ar safleoedd Ewropeaidd drwy roi'r argraff o gefnogaeth, drwy symud gweithgareddau'n anfwriadol, drwy rwystro camau ym maes cadwraeth, neu drwy roi cefnogaeth anuniongyrchol i ddatblygiad a allai effeithio'n niweidiol ar safle Ewropeaidd.
- 2.3.3 Mae'n debygol y bydd yr Hysbysiadau Cynllunio Morol yn cynnwys canllawiau i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n gorfod cydbwysu buddiannau sectorau neu gynigion sy'n cystadlu â'i gilydd neu sy'n anghydnaws â'i gilydd wrth ystyried SAF_02 (gweler **Atodiad A2**). Nid yw cynnwys canllawiau o'r fath yn cyflwyno unrhyw fecanweithiau newydd ar gyfer creu effeithiau y tu hwnt i'r pedwar a enwir uchod, ac ni fyddent yn newid pa mor debygol yn y pen draw yw hi y gellid bwrw ymlaen ag unrhyw gynnig yn ei Ardal Adnoddau Strategol 'ei hun'.
- 2.3.4 Rhoddir templed ar gyfer 'datganiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' yn **Atodiad B**. Ar ôl ei adolygu'n briodol yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Ardal Adnoddau Strategol, y bwriad yw y bydd yn addas i Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio i ddogfennu'r asesiad o dan

Reoliadau 63/28 wrth gyhoeddi Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol.

2.3.5

Er bod polisiau a thestun y Cynllun Morol, a thestun drafft yr Hysbysiad Cynllunio Morol, yn eglur ynghylch yr agweddau hyn, efallai y bydd yr argraff yn dal i fodoli fod tensiwn rhwng polisiau'r Cynllun Morol, dynodiad Ardaloedd Adnoddau Strategol, ac amcanion cadwraeth safleoedd Ewropeaidd. Gan hynny, efallai y byddai'n fuddiol i destun yr Hysbysiad Cynllunio Morol fod yn eglur mewn rhai meysydd, yn enwedig o ran beth mae'r Ardal Adnoddau Strategol yn ei hwyluso a'i gefnogi, a beth nad yw'n ei hwyluso a'i gefnogi. Er enghraifft, gallai Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol gynnwys y datganiad canlynol neu rai tebyg (yn ogystal â'r rhai a geir yn y templed presennol ar gyfer Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol), er mwyn cael gwared ar unrhyw risg o gamddechongli'r berthynas rhwng Ardaloedd Adnoddau Strategol a safleoedd Ewropeaidd (nodir bod y testun mewn coch yn newydd):

- Nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn llywio datblygiadau **tuag at ardal nac oddi wrthi** nac yn dangos **nac yn awgrymu** pa mor addas yw datblygiadau; nid ydynt **chwaith** yn golygu bod polisi cynllunio'n cefnogi datblygu **neu'n awgrymu y dylid datblygu**, ac nid ydynt yn gwahardd datblygu mewn ardal datblygu drwy weithgareddau eraill.
- Rhaid i'r holl gynigion a gyflwynir mewn Ardal Adnoddau Strategol ddilyn y gweithdrefnau awdurdodi a chydysnio arferol. Bydd angen dilyn yr holl reoliadau amgylcheddol (a'r polisiau yn y Cynllun Morol) yn llawn wrth fwrw ymlaen ag unrhyw ddatblygiad mewn unrhyw Ardal Adnoddau Strategol (yn yr un modd ag ym mhob lleoliad arall. Efallai na fydd rhai gweithgareddau gan bobl yn briodol mewn Ardal Adnoddau Naturiol oherwydd y gofyniad i warchod nodweddion Ardal Forol Warchoddedig neu am resymau eraill.
- **Ni fydd Ardaloedd Adnoddau Strategol yn gwrthdaro â dynodi Ardaloedd Morol Gwarchoddedig nac â chwblhau cyfraniad Cymru at rwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Byddai cynnal neu gyflawni 'statws cadwraeth ffafriol' ar gyfer safleoedd Ewropeaidd (Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a safleoedd ar y tir ill dau) y tu mewn neu'r tu allan i Ardaloedd Adnoddau Strategol yn "rheswm clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen" â chynigion ym maes cadwraeth natur a allai fel arall fod yn anghydnaws â dynodiad Ardal Adnoddau Strategol.**
- **Nid yw'r camau diogelu sy'n cael eu darparu gan SAF_02 yn drech na'r camau diogelu a ddarperir gan y Rheoliadau Cynefinoedd; ni ellir dibynnu ar anghydnawsedd ag Ardal Adnoddau Strategol wrth wneud dadl randdirymiad ar sail "dim opsiynau eraill", a byddai osgoi effeithiau niweidiol ar safle Ewropeaidd wastad yn rheswm "clir ac argyhoeddiadol" dros alluogi cynigion 'anghydnaws' mewn Ardal Adnoddau Strategol.**

2.3.6

Dylid nodi mai rhoi eglurder yn unig y mae'r awgrymiadau uchod o destun i'w gynnwys, ac nid camau i osgoi neu liniaru pethau o safbwynt cyfraith achosion 'People over Wind' (PoW)¹³; h.y. nid ydynt wedi'u cynnwys i reoli neu leihau effaith a fyddai fel arall yn

¹³ People Over Wind a Sweetman v Coillte Teoranta (C-323/17)

'sylweddol', ac ni fyddai hepgor y testun eglurhaol hwn yn newid nodweddion 'dim effaith sylweddol' sylfaenol polisi diogelu SAF_02 a Hysbysiadau Cynllunio Morol cysylltiedig yr Ardaloedd Adnoddau Strategol.

Cyhoeddwyd gan

.....
Mike Frost

Cymeradwywyd gan

.....
Pete Davis

Hysbysiad hawlfraint a pheidio â datgelu

Mae hawlfraint sy'n berchen i Wood (© Wood Group UK Limited 2021) yn berthnasol i gynnwys a chynllun yr adroddiad hwn ac eithrio i'r graddau y mae hawlfraint wedi'i haseinio'n gyfreithiol inni gan barti arall neu pan fydd yn cael ei defnyddio gan Wood o dan drwydded. I'r graddau mai ni sy'n berchen ar yr hawlfraint yn yr adroddiad hwn, ni cheir ei chopïo na'i defnyddio heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw at unrhyw ddiben ac eithrio'r diben a ddynodir yn yr adroddiad hwn. Mae'r fethodoleg (os oes un) a geir yn yr adroddiad hwn wedi'i darparu ichi'n gyfrinachol ac ni cheir ei datgelu na'i chopïo i drydydd partïon heb ganiatâd ysgrifenedig Wood ymlaen llaw. Gallai datgelu'r wybodaeth honno fod yn achos cyfreithadwy o dor-cyfrinachedd neu fel arall gallai beryglu ein buddiannau masnachol. Bydd yr Ymwadiad Trydydd Parti a geir isod yn berthnasol i unrhyw drydydd parti sy'n cael gweld yr adroddiad hwn mewn unrhyw fodd, ym mhob achos.

Ymwadiad trydydd parti

Mae'r ymwadiad hwn yn berthnasol os datgelir yr adroddiad hwn i drydydd parti mewn unrhyw fodd. Paratowyd yr adroddiad gan Wood dan gyfarwyddyd ein cleient, a enwir ar flaen yr adroddiad, ac at ddefnydd y cleient yn unig. Nid yw mewn unrhyw fodd yn gyfystyr â chyngor i unrhyw drydydd parti sy'n gallu gweld yr adroddiad mewn unrhyw ffordd. I'r graddau llawnaf a ganiateir yn gyfreithiol, mae Wood yn gwadu pob atebolrwydd ym mhob ffordd am unrhyw golledion neu ddifrod sy'n deillio ym mha bynnag fodd o ddiwyddu ar gynnwys yr adroddiad hwn. Nid ydym serch hynny yn gwadu ein hatebolrwydd (os o gwbl) am anaf personol neu farwolaeth sy'n deillio o'n hesgeulustod, am dwyll, nac am unrhyw fater arall lle na allwn wadu atebolrwydd yn gyfreithiol.

Systemau rheoli

Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu gan Wood Group UK Limited gan gydymffurfio'n llwyr â'n systemau rheoli, sydd wedi'u hardystio gan Lloyd's Register i ISO 9001, ISO 14001 a ISO 45001.

Diwygiadau i'r ddogfen

Rhif	Manylion	Dyddiad
3	Drafft terfynol	11.02.22
4	Fersiwn derfynol wedi'i thracio	22.02.22
5	Cyhoeddi'r fersiwn derfynol	22.02.22

Atodiad A1

Templed drafft ar gyfer Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019

<Date>

Hysbysiad Cynllunio Morol – Cyflwyno Ardaloedd Adnoddau Strategol A Rhoi'r Polisi Diogelu Ar Waith Ar Gyfer <Sector A>, <Sector B> (<Insert Reference Number>)

Cyflwyno

1. Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod cynllunio morol yn ardal forol glannau a môr mawr Cymru, wedi penderfynu, o ddyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad Cynllunio Morol (HCM) hwn, i gyflwyno Ardaloedd Adnoddau Strategol (AAS) ac i roi polisi diogelu SAF_02 o dan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar waith mewn perthynas â'r ardaloedd hynny, yn <Sector A>, <Sector B>.

Defnyddio'r HCM hwn wrth wneud penderfyniadau

2. Bydd awdurdodau cyhoeddus yn gorfod ystyried yr HCM hwn, o ddyddiad ei gyhoeddi, wrth wneud penderfyniadau o dan adran 58 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) (MCAA). Rhaid i Gyrrff Cyhoeddus neu Awdurdodau Cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau sydd â'r potensial i effeithio ar ardal y cynllun morol ystyried y polisi diogelu SAF_02 sydd wedi'i roi ar waith o fewn ffiniau'r AASau fel y maent wedi'u mapio, ym mhob penderfyniad a wnânt o'r dyddiad hwn¹.
3. Fe welwch y map sy'n disgrifio AASau yn:
 - a. <Sector A> yn Atodiad A.
 - b. <Sector B> yn Atodiad B.
4. Caiff yr holl fapiau eu cyhoeddi ar Borthol Cynllunio Morol Cymru <hyperlink>.
5. Dylech ddarllen yr HCM hwn ar y cyd â CMCC a Chanllawiau Gweithredu'r CMCC <hyperlink to IG>.
6. xxx Any additional text on implementing policy SAF_02. xxx

Ardaloedd Adnoddau Strategol

7. Mae paragraffau 46-61 o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) 2019 yn sefydlu, trwy gyhoeddi HCM, Ardaloedd Adnoddau Strategol (AAS), sy'n rhoi polisi diogelu SAF_02 CMCC ar waith ac yn rhoi ffocws iddo.

¹ Gan gynnwys pob penderfyniad sy'n agored a/neu heb ei gadarnhau ar ddyddiad ei gyhoeddi.

8. Mae Ardal Adnoddau Strategol (AAS) yn ardal neilltuedig y ceir adnodd naturiol ynnddi y mae potensial i sector penodol wneud defnydd cynaliadwy ohoni yn y dyfodol ac y'i diogelir i ryw raddau trwy bolisi SAF_02 CMCC.
- 9.

Policy SAF_02: Diogelu adnoddau strategol

Rhaid i gynigion a allai gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar ragolygon unrhyw sector a gwmpesir gan y cynllun hwn i ddefnyddio adnoddau strategol cynaliadwy yn y dyfodol (o adnoddau a nodwyd gan SRA) ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd â'r defnydd potensial hwnnw o adnoddau.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

Dylid dangos cydnawsedd, yn nhrefn blaenoriaeth:

- Osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y defnydd potensial hwn o adnoddau strategol, a/neu
- Lleihau'r effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- Lliniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu lleihau

10. Nid yw AAS yn llywio datblygiad nac yn gwneud datblygiad yn addas nac yn golygu bod polisi cynllunio yn cefnogi datblygiad nac yn rhwystro gweithgareddau eraill rhag cael eu datblygu yn yr ardal.
11. Bydd pob cynnig mewn AAS yn gorfod bodloni'r drefn awdurdodi a chydlynio arferol. Bydd yn rhaid cymhwyso'r holl reoliadau amgylcheddol (a pholisïau o fewn CMCC) yn llawn ar gyfer unrhyw ddatblygiad a gynhelir mewn AAS (fel ag y maent ymhob lleoliad). Gallai fod yn amhriodol cynnal rhai gweithgareddau dynol mewn AAS oherwydd y gofyn i ddiogelu nodweddion Ardal Forol Warchoddedig neu am reswm arall.
12. Fe welwch gopi o'r Canllawiau Gweithredu ynghylch defnyddio polisi diogelu SAF_02 CMCC mewn AAS wrth wneud penderfyniad yn <hyperlink to IG>.

Datblygu AASau

13. Wrth benderfynu cyflwyno AAS, bydd Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr angen amdani a'i manteision, yn unol â'r meini prawf ym mharagraffau 50-55 CMCC, ynghyd â'r graddau y mae ystyriaethau technegol yn ei gwneud yn bosibl nodi AAS realistig ac ystyrlon sydd â ffocws iddi.
14. Mae'r ystyriaethau hyn, ynghyd â'r modd y nodir a chabolir ffiniau AASau, wedi'u datblygu yn unol ag Egwyddorion Dylunio penodol <hyperlink to SRA derivation report>, ac mae tystiolaeth a gwaith dadansoddi helaeth wedi dylanwadu arnynt ac yn sail iddynt, fel a ddisgrifir yn <hyperlink to SRA derivation methodology> a <hyperlink to SRA derivation report>. Mae asesiad ar lefel cynllun, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (sgrinio) <hyperlink to report> ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (sgrinio) <hyperlink to report> ac ymgynghoriad cyhoeddus <hyperlink to report>, yn cael ei gynnal o bob cynnig i sefydlu AAS a bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi'r sylw priodol i sylwadau a ddaw i law wrth wneud penderfyniad i gyflwyno AAS yn sector x, sector x ac ati.

Newid yr HCM hwn a'i dynnu'n ôl

15. Mae mapiau'r AAS yn Sector x yn Atodiad A, Sector x yn Atodiad B ac ati, a'r polisi diogelu SAF_02 a roddir ar waith mewn perthynas â'r AASau hyn, yn ddilys o ddyddiad yr HCM hwn tan y bydd Gweinidogion Cymru yn eu newid neu'n eu tynnu'n ôl trwy newid yr HCM hwn neu ei dynnu'n ôl.
16. Gall Gweinidogion Cymru, ar sail tystiolaeth neu ffrwyth ymgynghori priodol ac o roi sylw i sylwadau a ddaw i law, benderfynu newid neu dynnu'n ôl yr AASau hyn a gyflwynwyd trwy'r HCM hwn trwy newid yr HCM hwn neu ei dynnu'n ôl. Bwrir ymlaen â'r newidiadau i'r HCM hwn, yr AAS a gyflwynwyd trwy'r HCM hwn neu'r modd y rhoddir polisi diogelu SAF_02 ar waith, yn unol â'r darpariaeth yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru.
17. Bydd Gweinidogion Cymru o leiaf bob pum mlynedd ar ôl dyddiad cyhoeddi'r HCM hwn yn ystyried a yw'r HCM yn parhau'n effeithiol ac a oes angen newid yr HCM neu ei dynnu'n ôl.

Atodiad A2

Dulliau posibl o gydbwysu buddiannau sectorau

Mae SAF_02 yn datgan "Rhaid i gynigion a allai gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar ragolygon unrhyw sector a gwmpesir gan y cynllun hwn i ddefnyddio adnoddau strategol cynaliadwy yn y dyfodol (o adnoddau a nodwyd gan [Ardal Adnoddau Strategol]) ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd â'r defnydd potensial hwnnw o adnoddau. Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen".

Yn ystod trafodaethau â rhanddeiliaid, gwelwyd y gallai fod angen i'r Hysbysiadau Cynllunio Morol gynnwys canllawiau am yr agwedd hon i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n cydbwysu buddiannau sectorau neu gynigion sy'n cystadlu â'i gilydd neu sy'n anghydnaws â'i gilydd. Gan hynny, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried a fyddai'n briodol dilyn un o'r dulliau canlynol, neu'r naill a'r llall ohonynt:

- Yng nghanllawiau gweithredu'r Ardaloedd Adnoddau Strategol, cynnwys meini prawf lefel uchel a/neu feini prawf sy'n benodol i sectorau ac y dylid eu hystyried fel rhan o'r achos dros fwrw ymlaen, yn unol â pholisi SAF_02, lle na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol. Byddai meini prawf o'r fath yn rhoi fframwaith strwythuredig i gefnogi'r broses o ystyried i ba raddau y byddai manteision bwrw ymlaen â'r cynnig yn drech na'r effeithiau niweidiol ar allu'r sector perthnasol yn yr Ardal Adnoddau Strategol i ddefnyddio'r adnodd hwnnw yn y dyfodol o fewn yr Ardal Adnoddau Strategol honno. Byddai angen seilio unrhyw feini prawf ar dystiolaeth, byddai angen iddynt fod yn gymesur, a byddai angen iddynt gyd-fynd ag amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, yn ogystal ag adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau polisi ehangach y Llywodraeth; a/neu
- Naill ai yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol neu yng nghanllawiau gweithredu'r Ardaloedd Adnoddau Strategol, mewn perthynas â phob Ardal Adnoddau Strategol neu Ardaloedd Adnoddau Strategol penodol neu ardaloedd o fewn yr Ardaloedd Adnoddau Strategol, dangos y flaenoriaeth gymharol y dylid ei rhoi i wahanol sectorau pen geir tystiolaeth y gallant fyd yn anghydnaws â'i gilydd. Byddai angen seilio unrhyw flaenoriaethu rhwng sectorau mewn ardal benodol ar dystiolaeth, byddai angen i hyn fod yn gymesur, a byddai angen iddo gyd-fynd ag amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, yn ogystal ag adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau polisi ehangach y Llywodraeth.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn angenrheidiol i Hysbysiadau Cynllunio Morol (neu'r canllawiau gweithredu cysylltiedig) wneud y canlynol:

- rhoi canllawiau am ystyr 'cydnawsedd digonol' ar gyfer cynnig a fyddai i'w leoli mewn Ardal Adnoddau Strategol; a
- rhoi eglurder ynghylch y gofynion wrth gyflwyno achos dros fwrw ymlaen, pan fydd effeithiau niweidiol gweddilliol ar allu'r sector a dargedir i ddefnyddio adnoddau strategol sydd wedi'u diogelu yn gynaliadwy yn y dyfodol (pan fydd y camau osgoi, lleihau, lliniaru wedi'u cwblhau).

Gallai'r canllawiau hyn roi cyfarwyddyd clir ynghylch sut y dylai'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau flaenoriaethu rhwng buddiannau gwahanol sectorau (pan fydd effaith niweidiol weddilliol) a gallai hynny arwain at sefyllfa lle byddai Hysbysiad Cynllunio Morol neu'r canllawiau gweithredu cysylltiedig yn blaenoriaethu buddiannau un sector dros un arall wrth ddilyn Polisi SAF_02. Yn yr un modd, gallai hefyd (neu yn hytrach) olygu gosod meini prawf sydd i'w bodloni er mwyn cyflwyno achos dros fwrw ymlaen er gwaethaf yr effeithiau niweidiol gweddilliol (fel y nodir uchod).

Mae potensial canllawiau o'r fath i gyflwyno effeithiau sylweddol wedi'i ystyried. Yn gryno, nid yw hyn yn cyflwyno unrhyw fecanweithiau newydd ar gyfer creu effeithiau y tu hwnt i'r pedwar a enwir ym **Mharagraff 2.2.6**, ac nid yw'n newid pa mor debygol yw hi yn y pen draw y gellid bwrw ymlaen ag unrhyw gynnig. Yn y pen draw, gallai canllawiau wedi'u seilio ar y paramedrau hyn (yn dibynnu ar sut y byddent yn cael eu rhoi ar waith) roi rhywfaint o flaenoriaeth i'r sector a dargedir yn ei Ardal Adnoddau Strategol 'ei hun', ond dim ond **wrth ystyried cynigion anghydnaws gan sector nad yw wedi'i dargedu**. Efallai mai effaith gyffredinol net hyn fyddai (er enghraifft) gwneud datblygiad agregau mewn Ardal Adnoddau Strategol agregau yn fwy tebygol **o'i gymharu** â datblygiad dyframaeth mewn Ardal Adnoddau Strategol agregau, ond ni fydd yn cael unrhyw effaith ar ba mor debygol yn gyffredinol yw hi y gellid bwrw ymlaen â datblygiad agregau – h.y. nid yw'r Ardal Adnoddau Strategol yn dal i roi unrhyw gefnogaeth na manteision o ran penderfyniadau cynllunio (ac ati) yn hyn o beth.

Byddai'r testun eglurhaol / ychwanegol yn Adran 2.3 hefyd yn rhoi eglurder wrth ddehongli'r dulliau uchod. Serch hynny, wrth ystyried y testun ar gyfer yr elfen hon, byddai'n briodol pwysleisio drachefn bod y cyfeiriadau at 'effeithiau niweidiol' yn adlewyrchu terminoleg SAF_02 yn hytrach na phrofion y Rheoliadau Cynefinoedd.

Atodiad B

Templed Drafft o Destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod cynllunio morol ar gyfer ardal forol y glannau a'r môr mawr yng Nghymru, yn cyhoeddi Hysbysiad Cynllunio Morol i gyflwyno Ardaloedd Adnoddau Strategol ac i roi ar waith, mewn perthynas â'r Ardaloedd Adnoddau Strategol hynny, bolisi diogelu SAF_02 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (y 'Cynllun Morol') ar gyfer [Sector X].

Mae Llywodraeth Cymru, fel yr awdurdod cymwys ar gyfer y Cynllun Morol a chyhoeddi'r Hysbysiad Cynllunio Morol, yn ystyried ei bod yn angenrheidiol penderfynu a fydd angen 'asesiad priodol' ar Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardal Adnoddau Strategol ar gyfer [Sector X] yn unol â Rheoliad 63 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd') a Rheoliad 28 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol y Môr Mawr 2017 ('Rheoliadau Cynefinoedd y Môr Mawr') (h.y. ystyrir Hysbysiad Cynllunio Morol yn 'gynllun' o fewn cwpas y Rheoliadau).

Nid yw Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn gynlluniau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â rheoli unrhyw safleoedd Ewropeaidd penodol, nac yn angenrheidiol i reoli safleoedd o'r fath, ac felly nid yw'r eithriadau yn Rheoliad 63(1)(b) a Rheoliad 28(2)(c) yn berthnasol i Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol.

Serch hynny, ar ôl adolygu pob elfen o Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardal Adnoddau Strategol ar gyfer [Sector X], gan gynnwys natur, maint a graddfa dynodiad yr Ardal Adnoddau Strategol a'r polisiau cysylltiedig yn y Cynllun Morol (yn benodol SAF_02), daethpwyd i'r casgliad nad oes angen asesuadau pellach ar Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardal Adnoddau Naturiol gan na all gael unrhyw effaith mewn egwyddor ar safle Ewropeaidd. Mae'r casgliad hwn wedi'i seilio ar nodweddion sylfaenol canlynol yr Hysbysiad Cynllunio Morol a'r polisiau cysylltiedig yn y Cynllun Morol:

- Bydd yr Hysbysiadau Cynllunio Morol yn gwbl atodol i'r Cynllun Morol ac yn amodol ar hwnnw, ac ni fyddant yn cyflwyno unrhyw bolisiau newydd, ac ni allant wrthdaro a pholisiau'r Cynllun Morol.
- Bydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn gweithredu gyda SAF_02 i ddiogelu adnoddau rhag cael eu sterileiddio'n amhriodol ac sy'n hwyluso deialog ragweithiol rhwng sectorau wrth gynllunio gweithgareddau'r dyfodol; nid ydynt yn diogelu adnoddau ar gyfer datblygu, nac yn hyrwyddo unrhyw ddatblygu.
- Rhaid i'r holl gynigion sy'nc ael eu cyflwyno mewn Ardal Adnoddau Strategol ddilyn y gweithdrefnau awdurdodi a chydysnio arferol, ynghyd â'r polisiau diogelu cyffredinol yn y Cynllun Morol. Ni fydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn dylanwadu ar ba mor dderbyniol yn y pen draw (neu beidio) yw datblygiadau penodol; ni fyddant chwaith yn rhoi hawliau, cefnogaeth, manteision o ran penderfyniadau cynllunio (ac ati) ar gyfer datblygu gan sector penodol; ni fyddant chwaith yn awgrymu unrhyw faint neu raddfa ar gyfer datblygu neu ddefnyddio adnoddau.
- Na fydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn arwain at effeithiau anuniongyrchol nac eilaidd ar safleoedd Ewropeaidd drwy fecanweithiau eraill, megis drwy roi'r argraff o

gefnogaeth, drwy symud gweithgareddau'n anfwriadol, drwy rwystro camau cadwraeth, neu drwy roi cefnogaeth anuniongyrchol i ddatblygiad a allai effeithio'n niweidiol ar safle Ewropeaidd.

Darperir tystiolaeth ategol yn [CYFEIRIAD AT NODYN TECHNEGOL YR ASESIAID RHEOLIADAU CYNEFINOEDD].

Ni fydd Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardal Adnoddau Strategol gan hynny'n cael unrhyw effaith sylweddol, ar ei ben ei hun nac ar y cyd, ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd. Mae Cyrff Cadwraeth Natur Statudol y Deyrnas Unedig wedi derbyn y casgliad hwn ac mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardal Adnoddau Strategol ar gyfer [Sector X] ar y sail hon.